# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG

## COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS NOS FAWRTH, 14EG CHWEFROR 2023 AM 5.30 P.M.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd T. Parry - Cadeirydd

Cynghorwyr:

E. M. Aldworth, C. Bishop, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, A. Farina-Childs, A. Gair, C. Gordon, B. Miles, L. Phipps, M. Powell, J. E. Roberts, J. Winslade a K. Woodland.

Aelodau Cabinet:

Y Cynghorydd C. Andrews (Addysg a Chymunedau).

Ynghyd a:

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), P. O'Neill (Uwch Reolwr Gwasanaeth Ieuenctid), S. Mutch (Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu) ac S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Addysg Archesgobaeth ROC Caerdydd ) a Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwyr)

Hefyd yn bresennol:

L. Davies (Cadeirydd, Fforwm Ieuenctid).

**TREFNIADAU RECORDIO**

Atgoffodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol y byddai'r cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw a bod recordiad ar gael i'w weld trwy wefan y Cyngor, heblaw am drafodaethau'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu sydd wedi'u heithrio - Cliciwch yma i weld. Cynghorwyd y Pwyllgor y byddai pleidleisio ar benderfyniadau yn cael ei wneud drwy Microsoft Forms.

**1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr M.P. James a J. Rao (Is-gadeirydd), ynghyd â Mrs P. Ireland (NEU).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o fuddiant eu derbyn ar ddechrau neu yn ystod y cyfarfod.

## 3. COFNODION – 26AIN MEDI 2022

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 26ain Medi 2022 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Trwy gyfrwng Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar (ac wrth nodi bod 10 o blaid, 0 yn erbyn a 3 yn ymatal) cytunwyd hyn gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 26ain Medi 2022 (cofnodion rhif 1- 8) yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 4. COFNODION – 19EG HYDREF 2022

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 19eg Hydref 2022 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Trwy gyfrwng Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar (ac wrth nodi bod 12 o blaid, 0 yn erbyn a 2 yn ymatal) cytunwyd hyn gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD bod cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 19eg Hydref 2022 (cofnodion rhif 1-3) yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 5. I YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN

Ni fu unrhyw fater a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

## 6. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG

Cyflwynodd y Rheolwr Craffu'r adroddiad a oedd yn amlinellu manylion Blaenaglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar gyfer y cyfnod mis Chwefror 2023 tan fis Mawrth 2023, ac roedd yn cynnwys yr holl adroddiadau a nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 26ain Medi 2022.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Flaenraglen Waith, ochr yn ochr â Blaenraglen Waith y Cabinet, cyn ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Gofynnodd Aelod am eglurhad a manylion pellach am e-bost a dderbyniwyd ynglŷn ag oedi Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Anerchodd Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif y Pwyllgor i dynnu sylw at nifer o ffactorau sydd wedi arwain at yr oedi, yn fewnol ac yn allanol. Cafodd yr aelodau wybod bod y gadwyn gyflenwi, contractwyr a'r fasnach adeiladu wedi cael eu heffeithio gan COVID-19, Brexit a'r rhyfel yn Wcráin, sydd wedi arwain at dendrau yn dod i mewn yn sylweddol uwch na'r disgwyl. Cafodd yr aelodau hefyd wybod y bu rhai newidiadau deddfwriaethol sydd wedi dod i rym, fel y gofynion ar gyfer draenio'n gynaliadwy lle mae'n rhaid i ymgynghori ddigwydd ar y broses cyn cynllunio.
I gloi, gwnaed cais am adroddiad am y rhesymau dros oedi Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i'w drefnu ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, ac yn amodol ar y cynnig am adroddiad ychwanegol, cafodd ei gynnig a'i eilio bod yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Trwy gyfrwng Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar (ac wrth nodi bod 14 o blaid, 0 yn erbyn ac 1 yn ymatal) cytunwyd hyn gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD bod Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## 7. ADRODDIADAU CABINET

Ni fu unrhyw adroddiad Cabinet a restrwyd ar yr agenda eu galw ymlaen i'w trafod yn y cyfarfod.

## ADRODDIADAU GAN SWYDDOGION

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

## 8. Y BLYNYDDOEDD CYNNAR - EHANGU RHAGLEN DECHRAU'N DEG A CHYFALAF

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau'r adroddiad i gyflwyno'r cynlluniau ar gyfer cyfnod ehangu Dechrau'n Deg 1 a chyfnod ehangu Gofal Plant Dechrau'n Deg 2 yn ogystal â'r cynlluniau cyfalaf sydd eu hangen i fodloni'r gweithredu'n llawn. Rhoddwyd cyflwyniad gan Reolwr y Blynyddoedd Cynnar i roi trosolwg o'r rhaglen ehangu a Chyfalaf Dechrau'n Deg a amlygodd sut y gallwch helpu i gynyddu'r nifer sy'n defnyddio lleoedd Gofal Plant Dechrau'n Deg.

Mewn ymateb i ymholiad Aelodau, esboniodd Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar sut y bydd lleoliadau gofal plant yn cael eu cyflwyno ar y System Prynu Deinamig a sut y gall teuluoedd wirio am ddarparwyr. Cafodd aelodau wybod bod Hwb y Blynyddoedd Cynnar wedi cynnig mynd allan i gymunedau gydag iPads i helpu teuluoedd i gwblhau'r ffurflenni, a darperir cefnogaeth hefyd dros y ffôn.

Gwnaeth Aelod sylwadau am oedi o ran Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac a gododd bryderon ynghylch yr effaith i ddarpariaeth meithrin a gofal plant, yn enwedig o ran y Gymraeg. Esboniodd Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar fod hyn yn rhan o'r rheswm pam y dewiswyd adnewyddu ac ad-drefnu yn bennaf yng Ngham 2, yn hytrach nag adeiladau newydd. Amlygwyd bod llawer o ddarparwyr preifat presennol, gan gynnwys gwarchodwyr plant a meithrinfeydd dydd, sy'n berchen ar eu hadeiladau a'u grantiau eu hunain ar gael i gefnogi lleoliadau i fodloni'r gofynion o ran darparu ansawdd ac ehangu lleoedd.

Mewn ymateb i ymholiad Aelodau ynglŷn â chodau post cymwys, rhoddodd Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar enghreifftiau i egluro sut mae ardaloedd wedi ceisio cael eu llunio i atal hollti ffordd neu stryd gyda gwahanol godau post lle bo modd, fodd bynnag, gall hyn ddigwydd ar achlysuron.

Cafwyd eglurhad a rhagor o wybodaeth am Strategaeth Bydwreigiaeth a Blynyddoedd Cynnar Gwent. Mae tîm Blynyddoedd Cynnar Caerffili wedi gweithio gyda phartneriaid yn yr Awdurdodau Lleol eraill a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddatblygu Strategaeth Bydwreigiaeth a Rhaglen y Blynyddoedd Cynnar a Chraidd o dan Raglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, sy'n rhaglen gyffredinol o gefnogaeth i bob teulu ar draws Gwent.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelodau, darparwyd eglurhad ar leoliadau gofal plant wedi'u hariannu. Amlinellodd Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar gymhlethdod lleoedd gofal plant wedi'u hariannu, a oedd yn cynnwys y gofal plant a ariennir gan Ddechrau'n Deg ar gyfer

plant 2-3 oed sy'n seiliedig ar god post, a'r cynnig gofal plant i blant 3-4 oed i deuluoedd sy'n gweithio ac i deuluoedd sydd mewn addysg uwch neu addysg bellach.

Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Trwy gyfrwng Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar (ac wrth nodi bod 15 o blaid, 0 yn erbyn a 0 yn ymatal) cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

> PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu wedi derbyn yr adroddiad a gwneud sylwadau ar y cynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth o raglen Dechrau'n Deg a lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg o fis Ebrill 2023.

## 9. CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG - CYNLLUN GWEITHREDU 5 MLYNEDD

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau'r adroddiad i gyflwyno crynodeb o gynllun gweithredu 5 mlynedd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032, er mwyn gallu craffu ac atebolrwydd tuag at y targed erbyn 2032 trwy gydol oes y cynllun. Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Reolwr y Blynyddoedd Cynnar a roddodd drosolwg o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032. Roedd y cyflwyniad yn amlinellu meysydd blaenoriaeth ar gyfer cynllun pum mlynedd 2022-2027, rôl y Grŵp Gorchwyl Cyfathrebu, Uned Trochi Hwyrddyfodiad, ehangu gofal plant Dechrau'n Deg a chymunedau cynaliadwy ar gyfer dysgu.

Mewn ymateb i ymholiad Aelodau, darparwyd eglurhad o ran yr Uned Trochi Hwyrddyfodiad. Cafodd y Pwyllgor wybod mai'r syniad o Uned Trochi'r Hwyrddyfodiad fydd i blant ysgol oedran cynradd ddechrau ond pe bai plentyn eisiau symud i addysg Gymraeg bydden nhw'n derbyn tymor a hanner dwys o addysg iaith Gymraeg, lle am 4 diwrnod yr wythnos byddant yn mynychu Uned Trochi Hwyrddyfodiad a'u hysgol letyol am 1 diwrnod yr wythnos.

Wrth ymateb i gwestiwn gan Aelodau cadarnhawyd bod cyllid ar gyfer disgybl mewn addysg Gymraeg yr un fath ag addysg cyfrwng Saesneg.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelodau am deuluoedd di-Gymraeg, amlinellodd Reolwr y Blynyddoedd Cynnar ffyrdd i helpu ac annog mwy o siarad Cymraeg mewn lleoliadau Saesneg eu hiaith a oedd yn cynnwys cyrsiau dysgwyr sy'n oedolion, dogfennau cefnogi a darparu adnoddau ar-lein i deuluoedd.

Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Trwy gyfrwng Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar (ac wrth nodi roedd 15 o blaid, 0 yn erbyn a 0 yn ymatal) cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

> PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu wedi derbyn cynllun gweithredu 5 mlynedd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'i fod wedi gwneud sylwadau ynghylch digonolrwydd gwybodaeth a thargedau i gyrraedd y targed isafswm o 26% yng ngharfan blwyddyn 1 erbyn 2032.

## 10. FFURFIOLI MODEL Y GWASANAETH IEUENCTID.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau'r adroddiad i ofyn am farn y Pwyllgor Craffu Addysg ar gynnig i'r Cabinet i ffurfioli'r dull cyfunol o ymgymryd â gwaith ieuenctid, sydd wedi cael amlygrwydd a sicrhau llwyddiant gydol pandemig COVID-19 a thu hwnt.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid drosolwg o'r adroddiad a chyflwynodd L. Davies (Cadeirydd y Fforwm Ieuenctid) i'r Pwyllgor Craffu, oedd hefyd ar gael i ateb unrhyw gwestiynau.

Dywedodd Aelod, er bod y pandemig COVID-19 wedi galw am ail-drefnu gwaith ieuenctid yn fwy uniongyrchol ac yn y pen draw llwyddiannus iawn er mwyn bodloni'r newidiadau sydyn mewn angen gan bobl ifanc a chymunedau, i sefyllfa llawer mwy hyblyg ac ymatebol, roedd rhai o'r newidiadau hyn eisoes yn digwydd cyn pandemig COVID-19. Cyn pandemig COVID-19, cafodd y Pwyllgor Craffu wybod fod y Gwasanaeth Ieuenctid wedi bod yn arbrofi gyda ffyrdd gwahanol o ddarparu gwaith ieuenctid, a oedd yn cynnwys gwaith ar-lein ac allgymorth. Esboniodd Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid fod gwaith allgymorth yn rhoi'r hyblygrwydd i fynd allan i gwrdd â phobl ifanc, yn enwedig y bobl ifanc hynny na fyddai'n cerdded i mewn i glwb ieuenctid. Amlygwyd bod pobl ifanc yn fwy soffistigedig ac mae angen dull ehangach o ymgysylltu â Gweithwyr Ieuenctid. Maen nhw eisiau gwasanaeth sy'n ymateb i'w anghenion gyda mwy o hyblygrwydd, sy'n cael ei gynnig drwy gydol y flwyddyn ac sy'n berthnasol i bobl ifanc drwy gydol y flwyddyn.

Gwnaeth Aelod sylwadau am fanteision darpariaeth ar ffurf clwb ieuenctid a chododd nifer o bryderon ynghylch y dull cyfunol. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid y Pwyllgor y bydd tair ardal glwstwr gyda chanolfan ieuenctid ar raddfa fawr sy'n addas i'r diben. Bydd pobl ifanc yn cael eu cludo o wahanol ardaloedd ar draws y fwrdeistref i gael mynediad i'r canolfannau ieuenctid, lle byddant yn cael budd o gyfleusterau da iawn. Eglurwyd y bydd Model y Gwasanaeth Ieuenctid yn estyn allan i bobl ifanc lle bynnag y byddan nhw'n dewis bod, drwy gydol y flwyddyn. Cafodd yr aelodau wybod bod fersiwn ar-lein gwaith ieuenctid yn defnyddio amrywiaeth eang o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, ac amlygwyd bod rhai pobl ifanc yn fwy cyfforddus yn cwrdd fel hyn. Cafodd aelodau hefyd wybod y gall gwaith ieuenctid sy'n seiliedig ar adeilad eithrio pobl ifanc nad ydynt yn gyfforddus yn mynychu clwb ieuenctid a rhyngweithio yn y ffordd honno. Darparwyd sicrwydd bod y Model Gwaith Ieuenctid yn destun ymgynghoriad â phobl ifanc.

Yn ystod y drafodaeth, cafodd nifer o ymholiadau eu codi yn ymwneud â goblygiadau ariannol, ail-hyfforddi staff a chanran y staff sy'n siarad Cymraeg. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid y bydd yn rhaid cwrdd â gofynion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, ond heblaw am hynny bydd yr arbedion yn cael eu defnyddio i ddarparu adnoddau i bobl ifanc. Sicrhawyd y Pwyllgor Craffu fod buddsoddiad sylweddol wedi bod o ran hyfforddi staff, ac nid yn ystod y cyfnod clo yn unig, i wneud yn siŵr eu bod yn gyfforddus yn gweithio mewn amgylchedd cyfunol. Amlygwyd bod staff yn gallu darparu gwaith ieuenctid mewn adeilad, ond bellach hefyd mewn parciau a chorneli strydoedd ac ati. Mae cyfleoedd hefyd i weithio gyda'r Tîm Digartrefedd Ieuenctid ac i gefnogi pobl ifanc agored i niwed. Yn ôl aelodau, o ran gwasanaeth dwyieithog, cynhaliwyd ymarfer gweithlu lle nododd 15% o'r staff eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Cyfeiriwyd at y cyfleuster ieuenctid Cymraeg a hysbyswyd y Pwyllgor fod cyllid wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i ehangu'r cynnig gwaith ieuenctid Cymraeg. Darparwyd enghraifft o waith ar y cyd â Chanolfan Galw Heibio Ieuenctid Senghenydd ym Mharc Virginia lle datblygwyd y gwaith hwn i sicrhau ei fod yn berthnasol i bobl ifanc.

Gofynnwyd am sicrwydd bod yr ymgysylltiad yn ddigonol i ddeall ac arddangos safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth yn llawn. Mewn ymateb, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid sicrwydd ac amlygwyd bod nifer o bobl ifanc wedi sefyll ar gyfer y Cabinet yn etholiadau diweddar y Fforwm Ieuenctid, na fyddent wedi eu cyrraedd pe na bai'r ymagwedd gyfunol at waith ieuenctid wedi'i chyflwyno. Cafodd yr aelodau wybod mai'r nod yw cael grwpiau llywio ar gyfer pob ardal glwstwr gyda phobl ifanc, partneriaid allweddol ac eraill i gynghori'r Gwasanaeth Ieuenctid yn yr ardal honno. Cafodd yr aelodau sicrwydd oddi wrth L. Davies (Cadeirydd y Fforwm Ieuenctid) bod y dull cyfunol yn wych gan ei fod yn caniatáu i bobl ifanc gymryd rhan, na fyddai fel arall wedi gallu cymryd rhan mewn cyfleoedd.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelodau, cynghorwyd y Pwyllgor Craffu fod ymgysylltu â rhieni yn ffactor mawr wrth wneud newidiadau. Eglurwyd bod staffio wedi cael ei ad-drefnu er

mwyn ymgysylltu â theuluoedd yn barhaol. Y nod yw delio gydag unrhyw faterion lleol drwy gyswllt a thrafodaeth er mwyn ceisio datrysiad.

Codwyd cwestiwn ynghylch sut mae staff yn ymgysylltu â phobl ifanc drwy'r model dull cyfunol. Cafodd yr aelodau wybod bod cyfres o brotocolau ar gyfer gwaith allgymorth, gyda staff yn gweithio mewn parau. Eglurwyd y bydd cyfnod o ad-drefnu lle bydd staff yn archwilio ardal a dod i adnabod y bobl ifanc, pobl siopau a phobl gymunedol allweddol. Yna byddant yn defnyddio eu sgiliau gwaith ieuenctid i feithrin y perthnasoedd hynny ac adnabod ac ymateb i faterion y gallai pobl ifanc eu cael. Amlygwyd y gall y math hwn o waith arwain at well perthnasoedd lleol a llai o ymddieithrio o'r ysgol. Gall y gwaith hwn hefyd arwain at ymgysylltu pellach â cholegau a chyrsiau hyfforddiant.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a diolchodd yn arbennig i L. Davies (Cadeirydd y Fforwm Ieuenctid) am fynychu ac i'r Uwch Reolwr Gwasanaeth Ieuenctid am ei ymatebion.

Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhellion. Trwy gyfrwng Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar (ac wrth nodi roedd 16 o blaid, 0 yn erbyn a 0 yn ymatal) cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

Ystyriodd y Pwyllgor Craffu Addysg yr addasiadau diweddar i'r gwasanaeth ieuenctid a gwnaeth sylwadau ar y gwelliannau arfaethedig i ffurfioli'r ffordd newydd hon o weithio.

ARGYMHELLIR i'r Cabinet: -

1. Bod y Gwasanaeth Ieuenctid yn ffurfioli'r ffordd newydd hon o weithio ac yn symud ymlaen gyda'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau gwelliant pellach i'r gwasanaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.24pm.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir, ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28ain Mawrth 2023, fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

__________________________

CADEIRYDD